# Arweiniad i arolygwyr

## Sut rydym yn arolygu
Gwasanaethau addysg llywodraeth leol – ar gyfer arolygiadau o Fedi 2024



**Mae'r arweiniad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad ..... 1**

Diben yr arweiniad hwn ..... 1

Sail gyfreithiol a chefndir polisi ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol ..... 1

**Rhan 1: Trefniadau arolygu ..... 5**

Cyflwyniad ..... 5

Cyd-destun ..... 5

Egwyddorion arolygu ..... 7

Ein meddylfryd ..... 8

Disgwyliadau o ran arolygwyr ..... 9

Disgwyliadau o ran darparwyr ..... 9

**Y Gymraeg** ..... 10

Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles ..... 10

Ymagwedd at arolygu ..... 11

Yr Ystafell Arolygu Rithwir ..... 12

Y tîm arolygu ..... 12

Amserlen arolygu ..... 13

Cysylltu â'r awdurdod lleol cyn yr arolygiad ..... 13

Arolygon ..... 15

Paratoi'r cwestiynau arolygu lleol ..... 15

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm ..... 16

Gweithgareddau arolygu rhagarweiniol ..... 16

Arsylwadau o wasanaethau addysg ..... 17

Yn ystod wythnos yr arolygiad ..... 17

Ar ôl yr arolygiad ..... 22

Llinell amser yn crynhoi cerrig milltir allweddol yn ystod y broses arolygu ..... 24

Sicrhau ansawdd arolygiadau ..... 24

**Rhan 2: Trefniadau gweithgarwch dilynol ..... 26**

Ar gyfer awdurdodau lleol neu wasanaethau addysg sy'n peri pryder sylweddol ..... 26

Cynhadledd wella ôl-arolygiad ..... 26

Ymweliadau monitro ..... 26

Tynnu o gategori gweithgarwch dilynol ..... 27

# Cyflwyniad

## Diben yr arweiniad hwn

**Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y byddwn ni'n cynnal arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol (GALIL) o Fedi 2024.** Dylech ei ddarllen ochr yn ochr â'n harweiniad ar 'Beth rydym yn ei arolygu mewn darparwyr rhaglenni prentisiaethau' dan arolygiadau GALIL.

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cwmpasu swyddogaethau addysg statudol yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau addysg a ddarperir ar ran awdurdod lleol gan:

- wasanaeth gwella ysgolion
- partneriaeth rhwng dau awdurdod lleol neu fwy
- sefydliad arall a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol (er enghraifft sefydliad gwirfoddol neu gwmni preifat)

Gallai'r darparwyr eraill hyn neu'r gwasanaethau ar y cyd gael eu harolygu ar wahân i awdurdod lleol a chyfeirir atynt yn yr arweiniad hwn fel 'darparwyr eraill gwasanaethau addysg'. Yn yr arolygiadau hyn, byddai arolygwyr ond yn cymhwyso'r rhannau o'r fframwaith sy'n cwmpasu'r gwasanaethau addysg perthnasol.

Hefyd, mae'r arweiniad hwn yn amlinellu sut y byddwn yn mynd ar drywydd awdurdodau lleol, gwasanaethau a gomisiynwyd neu wasanaethau partneriaeth sy'n peri pryder sylweddol.

Gall awdurdodau lleol a'u partneriaid ddefnyddio'r arweiniad hwn i ddeall sut byddwn ni'n cynnal arolygiadau. Gallai eu helpu hefyd i hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Byddwch yn dod o hyd i ragor o wybodaeth ac arweiniad am arolygiadau ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru.

## Sail gyfreithiol a chefndir polisi ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Caiff arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol eu cyflawni o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 sy'n darparu 'y caiff, ac os gofynnir iddo wneud hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEF) drefnu i unrhyw awdurdod lleol gael ei arolygu'. Rhaid i arolygiad o'r fath 'gynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu addysg ar gyfer (a) pobl o oed ysgol gorfodol (boed yn yr ysgol neu fel arall) neu (b) bobl o unrhyw oedran uwchlaw neu islaw'r oedran hwnnw sydd wedi'u cofrestru'n ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod'.

Mae agweddau eraill ar wasanaethau addysg llywodraeth leol yn destun eu harolygu o dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth, gan gynnwys y swyddogaethau a roddwyd iddo o

dan adrannau 25 a 26 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid (o fewn ystyr adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000). Byddwn yn diweddaru'r arweiniad hwn yn ôl yr angen er mwyn ystyried rôl awdurdodau lleol wrth roi'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar waith, yn ogystal â rôl Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'n perthynas ag ef.

Mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydweithredu i wella lles plant. O ran awdurdodau lleol, rhoddir y pwerau i'r arolygiaeth adolygu swyddogaethau awdurdod lleol yn gysylltiedig ag Adran 51 y Ddeddf, sef cydweithredu i wella lles a llunio cynlluniau plant a phobl ifanc lle mae'r swyddogaethau hyn yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae Adran 51 Deddf Plant 2004 yn newid Deddf Addysg 1997 fel bod 'Arolygiad o awdurdod addysg lleol yng Nghymru o dan yr adran hon yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni:

- unrhyw swyddogaeth a gyflwynwyd iddo yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod addysg lleol
- y swyddogaethau a gyflwynwyd iddo o dan adrannau 25 a 26 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid'

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn atgyfnerthu'r pwerau mynediad a'r hawl i ddogfennaeth sydd wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth flaenorol.

Er mwyn ymateb i'r gofyniad yn Neddf Plant 2004 i arolygiaethau gydweithio'n agosach, gallai arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymuno ag AEF. Yn ogystal, efallai bydd arolygwyr ychwanegol (AY) sydd wedi'u hawdurdodi o dan baragraff 2 Atodlen 1 Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 yn ymuno ag AEF yn ystod arolygiadau. O dan Adran 41 Deddf Addysg 1997, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gallai PAEF ofyn i Archwilio Cymru gynorthwyo ag unrhyw arolygiad o dan Adran 38. Mae PAEF ac Archwilio Cymru wedi cytuno:

i y bydd Archwilio Cymru yn cyfrannu at yr arolygiadau hynny o awdurdodau lleol lle y bydd eu harbenigedd yn ychwanegu at drylwyredd ac effeithiolrwydd yr arolygiad

ii y bydd Archwilio Cymru yn cyfrannu at gasglu a dadansoddi data perfformiad awdurdodau lleol yn rheolaidd

iii fel partneriaid mewn arolygu awdurdodau lleol, gall Archwilio Cymru a'r arolygiaeth ddefnyddio adroddiadau arolygu'r awdurdod lleol i lunio adroddiadau, arolygon ac astudiaethau eraill

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn cefnogi'r ymagwedd a'r trefniadau ar gyfer arolygu awdurdodau lleol naill ai gan arolygiaethau unigol neu ar y cyd rhyngom ni, Archwilio Cymru ac AGC.

Yn ogystal, mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys arolygu'r trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid (GCI). Y trefniadau partneriaeth hyn yw'r rheini a arweinir gan yr awdurdod lleol i gynllunio, cydlynu a goruchwylio'r holl wasanaethau cymorth ieuenctid mewn ardal. Amlinellwyd y trefniadau partneriaeth hyn yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac ym mholisi Llywodraeth Cymru fel y'i disgrifiwyd yn Ymestyn Hawliau ac arweiniad cysylltiedig[1]. O dan Ddeddf Plant 2004[2], gall y cyfrifoldeb statudol hwn am gynllunio mewn partneriaeth gael ei gyflawni drwy bartneriaeth pobl ifanc, partneriaeth plant a phobl ifanc neu bartneriaeth.

Gwasanaethau cymorth ieuenctid yw'r gwasanaethau hynny ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, sy'n cael eu darparu, eu caffael neu eu hwyluso gan awdurdod lleol a'u nodi yn y cynllun partneriaeth a/neu adroddiad hunanasesu. Dyma'r gwasanaethau a fydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol):

- i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg neu hyfforddiant;
- i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; neu
- i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.[3]

Yn ychwanegol at gyfeirio at y trefniadau partneriaeth hynny ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid, defnyddir y term partneriaeth yn fwy cyffredinol yn yr arweiniad hwn. Mae polisi cenedlaethol a'r ymgyrch i wella gwasanaethau a bod yn fwy cost-effeithiol yn golygu bod awdurdodau yn gweithio mwyfwy mewn partneriaeth ac yn integreiddio gwasanaethau. Yn yr arweiniad hwn, defnyddir 'partneriaeth' i gyfeirio at unrhyw drefniadau cydweithio lle mae partneriaid, sydd yn annibynnol fel arall, yn cydweithio i gyflawni nod gyffredin. Ni ddefnyddir y term i ddisgrifio trefniadau ymgynghorol, rhwydweithiau proffesiynol na threfniadau contractiol.

Caiff gwaith ieuenctid a ddarperir gan awdurdod lleol ei arolygu ar wahân.

Mae gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 oblygiadau amrywiol i'r modd y mae awdurdodau lleol yn gweithio. Mae Rhan 6, 'Perfformiad a llywodraethu prif gynghorau', yn arbennig, yn cynnwys sawl dyletswydd a allai effeithio ar y modd y caiff awdurdodau lleol eu harolygu, a sut rydym yn gweithio gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill. Bydd ein harolygiadau yn ystyried unrhyw reoliadau neu ganllawiau statudol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Ddeddf.

Mae dogfen 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ysgolion' Llywodraeth Cymru '... yn cynnig pwynt cyfeirio newydd i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, sy'n amlinellu'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt wrth gyfrannu at wella ysgolion, yng nghyd-destun eu dyletswyddau cyfreithiol ehangach'. Byddwn yn ystyried y disgwyliadau hyn yn ein harolygiadau.

---

[1] Mae Ymestyn Hawliau a'r cyfarwyddiadau a'r arweiniad cysylltiedig ar gyfer ei weithredu yn ehangu'r sail gyfreithiol yng Nghymru ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn y dogfennau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu fframweithiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid.

[2] Canllawiau Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau (2006) Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 35/2006.

[3] Adroddiad Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru gan Uned Bolisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000, tud 83.

Dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddysgwyr ag ADY rhwng 0 a 25 oed, gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar addysg neu hyfforddiant addas, gan gynnwys addysg orfodol ac addysg neu hyfforddiant ôl-16 arbenigol, yn ôl yr angen. Mae'r Ddeddf a'r Cod ADY ategol yn cyflwyno ystod o ddyletswyddau statudol newydd ar gyfer awdurdodau lleol a gyflwynwyd dros gyfnod gweithredu o dair blynedd a ddechreuodd yn 2021. Caiff gweithrediad y Ddeddf ADY ei ystyried mewn arolygiadau GALIL, lle bo hynny'n berthnasol.

Nod y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yw cyflawni deilliannau gwell i'r rhai sy'n cael profiad o ddifreintedd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i ystod o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol. Disgwylir i awdurdodau lleol ddangos sut gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â difreintedd economaidd-gymdeithasol.

Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu uchelgais Llywodraeth Cymru i fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan wasanaethau addysg llywodraeth leol rôl hollbwysig o ran datblygu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig trwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol awdurdod lleol. Mae addysg drochi Cymraeg a ddarperir gan awdurdod lleol yn cael ei harolygu ar wahân.

Ym mhob arolygiad, rydym yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004 fel y sail i lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc.

Er y gallai pobl ifanc hŷn gael mynediad at Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, caiff y Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned eu harolygu ar wahân.

# Rhan 1: Trefniadau arolygu

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi ei hamlinellu mewn ffordd sy'n adlewyrchu trefn y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad.

Mae'r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

## Cyd-destun

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud ag arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Rydym yn gwerthuso agweddau ar wasanaethau addysg llywodraeth leol yn rheolaidd trwy amrywiaeth o weithgareddau eraill. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn arwain at werthusiadau cyhoeddedig, ond nid yw rhai eraill. Mae'r tabl isod yn rhoi mwy o fanylion.

| Gweithgarwch arolygu | Amlder | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Gwaith rheolaidd arolygydd cyswllt awdurdod lleol (ACALl)**<br><br>Mae tîm o ACALlau yn gweithio mewn rhanbarth ac mae gan bob awdurdod lleol un ACALl fel cyswllt allweddol. Mae ACALlau yn cyfarfod ag uwch swyddogion ac aelodau etholedig mewn awdurdodau lleol i'w herio am eu gwaith i wella deilliannau addysg. Gallai ACALlau gyfarfod ag arweinwyr ysgolion a darparwyr addysg lleol eraill. Gallai cyfarfodydd o'r fath ag ACALl fod wyneb yn wyneb neu ar-lein. Gallai ACALlau arsylwi cyfarfodydd y cyngor yn uniongyrchol neu ddilyn trafodion ar-lein. Trwy gydol y flwyddyn, rydym yn derbyn gohebiaeth gan ddysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill am wasanaethau addysg llywodraeth leol. Bydd ACALlau yn ystyried hyn yn eu trafodaethau gydag awdurdodau lleol. Gallai ACALlau gyfarfod â chonsortia rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion hefyd, ac â phartneriaethau eraill rhwng awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau addysg. | Bob tymor o leiaf | Adborth llafar i uwch arweinwyr perthnasol. Mae gwaith ACALl yn llywio gweithgarwch arolygu arall gyda'r awdurdod lleol a'i ddarparwyr addysg. |
| **Sicrwydd ac Asesu Risgiau**<br><br>Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rydym yn | Bob blwyddyn | Adborth llafar ynghyd â sleidiau â phwyntiau bwled i'r |

| | | |
|---|---|---|
| cydweithio'n agos ag Archwilio Cymru ac AGC i gyflwyno asesiad blynyddol o sicrwyddau a risgiau ar draws meysydd gwasanaeth ym mhob awdurdod lleol. O'n safbwynt ni, mae'r sicrwyddau a'r risgiau a gyflwynwn yn ddamcaniaethau gweithredol, fel arfer, wedi'u seilio ar y dystiolaeth sydd gennym, oni bai ein bod yn digwydd bod wedi arolygu'r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn dan sylw. Yn y gwaith hwn, byddwn yn ystyried ystod lawn gweithgarwch arolygu Estyn, er enghraifft yn cynnwys materion yn deillio o sectorau ôl-16 ac annibynnol sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol. | | tîm arweinyddiaeth gorfforaethol gydag Archwilio Cymru ac AGC. Ar ôl y cyfarfod, byddwn yn anfon llythyr i gadarnhau ein barn ar y sicrwyddau a'r risgiau cyfredol. |
| **Ymweliadau manwl gan ACALlau**<br><br>Byddwn fel arfer yn cynnal ymweliad manwl gan ACALlau â phob ALl ddwywaith mewn cylch chwe blynedd (bob dwy flynedd, ond nid yn y flwyddyn pan gynhelir yr arolygiad o GALlL). Bydd yr ymweliad yn canolbwyntio ar agwedd benodol / agweddau penodol ar GALlL yr ALl, a fydd yn cael eu cytuno cyn yr ymweliad trwy'r ACALl. Gallai'r maes â ffocws fod yn un y mae'r ALl am i ni ei ystyried, gallai fod yn argymhelliad o arolygiad blaenorol, neu gallai fod yn faes o ddewis Estyn. Bydd y gwaith hwn fel arfer yn cael ei wneud dros gyfnod o ddeuddydd ac yn cynnwys yr ACALl, yn ogystal â dau arolygydd arall (gallai un o'r rhain fod yn arolygydd cymheiriaid, lle bo'n briodol). Gallai'r gwaith gynnwys cyfarfodydd ar-lein, yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ymweliadau â darparwyr. | Bob dwy flynedd | Llythyr cyhoeddedig yn amlygu'r cryfderau a'r ystyriaethau, yn cynnwys unrhyw bryderon. |
| **Adroddiadau thematig**<br><br>Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni lunio adroddiadau cenedlaethol ar ystod o themâu. Yn aml, byddwn yn ymweld â sampl o awdurdodau lleol neu ddarparwyr eraill gwasanaethau addysg fel rhan o'r gwaith hwn. | Bob blwyddyn | Adborth llafar yn ystod ymweliadau. Mae adroddiadau cenedlaethol yn cynnwys awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol unigol sydd ag arfer dda. |
| **Adroddiadau testunol**<br><br>Gallem ddewis canolbwyntio ar agwedd | Yn achlysurol | Adborth llafar neu ysgrifenedig i bob |

| | | |
|---|---|---|
| benodol ar wasanaethau addysg llywodraeth leol a byddwn yn gwerthuso'r testun hwn ar draws sampl o awdurdodau lleol neu ddarparwyr eraill gwasanaethau addysg, neu bob un ohonynt. Byddwn yn rhannu'r maes â ffocws ag ALlau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gan wybod y gallai blaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn a all arwain at newidiadau i'r meysydd â ffocws ar gyfer y gwaith testunol. | | awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg, fel y bo'n briodol. Hefyd, gall gyfrannu at adroddiadau cenedlaethol neu ein hadroddiad blynyddol. Gallai gyfrannu at gyngor nas cyhoeddir i Weinidogion neu Lywodraeth Cymru, hefyd. |
| **Cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion**<br>Mae'n ofynnol i ni werthuso pob cynnig ar gyfer trefniadaeth ysgolion a gyflwynir gan awdurdodau lleol. | Yn unol â chyflwyniadau gan awdurdodau lleol | Rydym yn llunio ymateb ffurfiol sy'n cael ei gynnwys yn yr 'adroddiad ymgynghori' a gyhoeddir gan y cynigiwr, a chaiff hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan. |
| **Arolygiadau o ysgolion a darparwyr addysg eraill** a **gweithgarwch dilynol cysylltiedig**<br>Mae arolygwyr cofnodol ar gyfer arolygiadau ysgol yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol â ni am ba mor dda y mae'r awdurdod lleol yn adnabod yr ysgol ac ansawdd yr her a'r cymorth a ddarperir i'r ysgol gan yr awdurdod lleol neu ei wasanaeth gwella ysgolion, lle bo hynny'n berthnasol. | Parhaus | Mae canfyddiadau'n llywio gweithgarwch arolygu a'r trafodaethau y caiff ACALlau â'r awdurdod lleol. |

Yn ystod arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol, byddwn yn ystyried y gweithgarwch arolygu a ddisgrifir uchod, ynghyd ag unrhyw waith arolygu perthnasol arall a wnaethom nad yw wedi'i gynnwys uchod.

## Egwyddorion arolygu

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â sawl egwyddor allweddol. Byddant:

- yn defnyddio dull yn canolbwyntio ar y dysgwr gyda ffocws cryf ar yr effaith a gaiff gwasanaethau addysg ar ddeilliannau dysgwyr
- yn ystyried cyd-destun penodol y darparwr ac yn addasu eu dulliau yn unol â hynny

- yn defnyddio ystod o fethodolegau a dulliau teilwredig i werthuso ehangder gwaith y darparwr yn gadarn ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n gwneud y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff

Yn ystod arolygiadau, rydym yn disgwyl i arolygwyr ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad arolygu 'beth' a 'sut', ond adrodd ar y cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella yn unig, ochr yn ochr â'r gofynion adrodd a nodwyd yn y dogfennau hyn.

Yn ychwanegol, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod gwerthusiadau yn gadarn, yn ddibynadwy ac yn ddilys
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennau a pharatoadau gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr, penaethiaid a rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl weithgarwch

Mewn arolygiadau, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, yn cynnwys cyfle i'r darparwr ddewis enwebai (a ddylai fel arfer fod yn brif swyddog addysg neu'n uwch swyddog sy'n adrodd i'r prif swyddog addysg)
- yn rhoi ystyriaeth addas i'r blaenoriaethau gwella a ddewiswyd gan y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu

Byddwn hefyd yn cyfrannu at asesiadau ac adroddiadau ar y cyd â chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill fel y mynnir gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

## Ein meddylfryd

Mae ein dull:

- **Yn deg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol a chytbwys. Rydym yn drylwyr a chyson yn ein gwaith. Rydym yn pwysoli'r dystiolaeth a'i harwyddocâd i ddarparu barn onest, gredadwy a chywir am gryfderau a meysydd i'w gwella'r darparwr.

- **Yn gefnogol** – rydym yn gweithio i roi arweiniad i ddarparwyr i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i ddysgwyr. Ble bynnag y bo'n briodol, rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Rydym yn gyfeillgar ond bob amser yn broffesiynol o ran ein dull. Rydym yn cefnogi diwygio addysgol. Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon gyda darparwyr a sefydliadau lleol a rhanbarthol.

- **Yn fyfyriol** – rydym ni'n feddwl agored. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am y canfyddiadau arolygu a'u trafod â phobl eraill yn y tîm.

- **Yn dryloyw** – rydym ni'n wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio gweithgarwch arolygu a gweithgarwch arall ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hyrwyddo ymddiriedaeth a pharch.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau o ran arolygwyr yn ei gwneud yn glir sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad.

Wrth arolygu neu ymgysylltu â darparwr fel arall, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol
- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, parch a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen i'r eithaf yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a chadarn
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofn na ffafriaeth
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd darpariaeth ac arweinyddiaeth ar sail eu heffaith ac nid ar sail unrhyw hoffter o ddulliau penodol. Yr allwedd i'n gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'w diben o gynorthwyo pob dysgwr i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau pryd bynnag y byddant yn cael eu hysbysu am ymgysylltiad, er enghraifft eu bod yn rhan o dîm arolygu darparwr.

## Disgwyliadau o ran darparwyr

Er mwyn i arolygu fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu ac yn cynnal amgylchedd gwaith proffesiynol ar sail cwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Mae gennym ddisgwyliadau uchel am y ffordd y mae arolygwyr yn gwneud eu gwaith. Yn gyfnewid am hynny, rydym yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan barchu arolygwyr a staff cymorth arolygu
- gweithredu er lles pennaf dysgwyr
- darparu tystiolaeth – neu fynediad at dystiolaeth – sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cydnabod bod angen i arolygwyr siarad ag aelodau etholedig, swyddogion,

dysgwyr neu randdeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- gweithio gydag arolygwyr i gymryd yr holl gamau rhesymol i leihau tarfu, straen a biwrocratiaeth
- cynnal deialog bwrpasol â'n harolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- dod ag unrhyw bryderon ynghylch yr arolygiad at sylw arolygwyr mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai
- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch, a lles arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- sicrhau bod timau arolygu'n cael mynediad at ardal breifat i drafod tystiolaeth arolygu a chynnal trafodaethau cyfrinachol
- peidio â thynnu lluniau na gwneud fideos yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys gwerthusiadau drafft a ddatblygwyd yn ystod yr arolygiad

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Pan fydd yn cael hysbysiad am arolygiad, dylai'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltiad, er enghraifft cyn eu hymweliad arolygu ar y safle.

## Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltiad, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol â'n harweiniad ar arolygu diogelu. Os byddant yn gweld unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr rybuddio uwch arweinwyr yn y darparwr.

Os caiff arolygydd wybod am **honiad** neu amheuaeth **ynghylch diogelu** yn ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylai arolygwyr roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol (ACof). Wedyn, dylai'r ACof gysylltu ag un o swyddogion arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r ACof am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles dysgwyr. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i'r ACof p'un a ddylid rhannu'r pryder â'r awdurdod lleol neu ddarparwr gwasanaethau addysg arall ai peidio.

Lle mae'r risgiau hyn yn peri pryder difrifol yn ystod gweithgarwch arolygu, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad.

Byddwn yn anfon llythyr lles at y darparwr yn gofyn iddo amlinellu sut bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg.

Os bydd arolygydd yn nodi pryder ynghylch diogelwch ar y safle, dylai roi gwybod i'r ACof. Os yw'r ACof yn ystyried y gellir mynd i'r afael â'r pryder yn gyflym, dylai roi gwybod i'r darparwr y bydd disgwyl iddo ddarparu tystiolaeth fod y pryder wedi cael ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Os yw'r pryder yn fwy difrifol ac ni ellir mynd i'r afael ag ef yn gyflym, dylai'r ACof roi gwybod i'r CydAr a fydd yn cyflwyno llythyr rheoli safle i'r awdurdod lleol. Os yw'n berthnasol, dylid rhoi gwybod i'r ysgol, yr UCD neu ddarparwr gwasanaethau addysg arall am hyn, hefyd. Os nad eir i'r afael â mater llai arwyddocaol yn foddhaol yn ystod yr arolygiad, yna bydd y broses hon yn berthnasol, hefyd.

## Ymagwedd at arolygu

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu hategu gan weithgarwch dilynol mewn awdurdodau lleol a darparwyr eraill gwasanaethau addysg y nodir eu bod yn peri pryder sylweddol, ac ymdrinnir â hyn yn Rhan 2.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw arfarniad yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg o'i berfformiad ei hun, gan ategu hynny â thystiolaeth berthnasol. Dylai gwasanaethau addysg llywodraeth leol fod yn gwerthuso eu gwaith fel proses naturiol yn eu cylch gwella busnes. **Nid ydym yn disgwyl i awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg baratoi adroddiad hunanwerthuso ar gyfer arolygiad, a byddwn yn feirniadol o arweinwyr os caiff adroddiad o'r fath ei greu yn gyfan gwbl at y diben hwn**. Mae hunanwerthuso yn broses bwysig iawn ar gyfer gwella. Mae hunanwerthuso gonest a thrwyadl, ochr yn ochr ag asesu risg cyson, yn helpu awdurdodau lleol a darparwyr eraill gwasanaethau addysg i gynnal gwasanaethau da a'u datblygu ymhellach, cynllunio ar gyfer gwelliant lle bo angen a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Bydd arolygwyr yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi gwerthusiad yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ei hun. Mae'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr o'u mannau cychwyn a'r safonau a gyflawnant yn fesurau allweddol o ansawdd yr addysg y maent wedi'i chael ac o effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Bydd arolygu hefyd yn canolbwyntio ar effaith gwasanaethau addysg o ran bodloni anghenion unigol dysgwyr a chefnogi eu lles.

Ni fydd arolygwyr yn arolygu neu'n gwerthuso pob gwasanaeth addysg yn ystod arolygiad, o reidrwydd. Ar ôl edrych ar ddogfennau allweddol gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg, fel adroddiadau perfformiad a chynlluniau strategol, ochr yn ochr â'r wybodaeth sydd gennym ni, bydd arolygwyr yn nodi agweddau penodol ar wasanaethau addysg i'w gwerthuso yn ystod yr arolygiad craidd. Bydd arolygwyr yn gwneud hyn trwy ddrafftio 'cwestiynau arolygu lleol'. Bydd arolygwyr yn rhannu'r cwestiynau hyn â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau lleol ac yn gofyn am eu barn ynghylch eu haddasrwydd. Bydd arolygwyr yn ystyried yr adborth wrth ddrafftio geiriad terfynol y cwestiynau.

Gall hyd yr arolygiad a maint y tîm amrywio yn ôl maint yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg a chwmpas ei wasanaethau, ynghyd â nifer a natur y cwestiynau arolygu lleol.

Fel arfer, caiff gweithgareddau arolygu craidd, fel cyfweliadau, grwpiau ffocws a chyfarfodydd tîm, eu cynnal wyneb yn wyneb. Gallai dull o bell yn defnyddio meddalwedd cyfarfodydd o bell neu alwad ffôn fod yn addas ar gyfer rhai gweithgareddau. Bydd gweithgareddau a wneir o bell yn cael eu defnyddio â disgresiwn, naill ai ble mae amgylchiadau neu reolau yn gofyn hynny, neu ble mae'n gyfleus ac yn effeithlon gwneud hynny heb amharu ar effeithiolrwydd y broses arolygu. Er enghraifft, fel rhan o'r gweithgareddau rhagarweiniol, gallem drefnu cyfarfod ar-lein ar gyfer grŵp o benaethiaid yn hytrach na gofyn iddynt deithio pellter sylweddol i leoliad canolog.

Fel rhan o'r broses arolygu, gallai arolygwyr arsylwi gwasanaethau addysg fel rhan o arolygiad GALIL pan fydd angen rhagor o dystiolaeth i ategu gwaith ar gwestiynau arolygu lleol. Byddem fel arfer yn gwneud hyn fel rhan o'r gweithgareddau rhagarweiniol, os oes angen.

Fel arfer, byddwn yn trafod ac yn cytuno â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg pa weithgareddau allai fod yn addas ar gyfer dull o bell fel rhan o'r broses o gynllunio arolygiad.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig, o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR), i reoli llawer o agweddau ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n galluogi awdurdodau lleol i lanlwytho gwybodaeth cyn yr arolygiad ac i lawrlwytho arweiniad gennym ni ynglŷn â'r broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle y gall awdurdodau lleol a darparwyr eraill gwasanaethau addysg weld arweiniad yr enwebai ar baratoi ar gyfer yr arolygiad ac ar lenwi holiaduron ôl-arolygiad (HOA).

## Y tîm arolygu

Bydd ein timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (ACof). Yr arolygydd cofnodol sy'n rheoli'r tîm arolygu, ac ef/hi yw'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad. Bydd yr ACof bob amser yn AEF, ac aelodau eraill o'r tîm yn dod o blith AEF, arolygwyr ychwanegol (AY) ac arolygwyr cymheiriaid. Caiff AEF (Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) – eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn. Mae arolygwyr ychwanegol fel arfer yn ymuno ag Estyn dros dro, er enghraifft ar secondiad o awdurdod lleol, neu gallent fod yn AEF sydd wedi ymddeol yn ddiweddar.

Caiff yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ei wahodd i ddewis uwch aelod staff i ymgymryd â rôl yr enwebai, i gydweithio â'r tîm arolygu. Dylai fod gan yr enwebai hynafedd digonol a gwybodaeth ddigonol am waith yr awdurdod lleol i weithredu fel cysylltiad rhwng yr awdurdod lleol a'r tîm arolygu. Rydym yn annog y prif swyddog addysg i fod yn enwebai, lle bo modd.

### Ar gyfer arolygiadau safonol o awdurdodau lleol

Fel arfer, bydd arolygydd cyswllt yr awdurdod lleol (ACALl) yn rhan o'r tîm ac yn gweithredu fel y dirprwy ACof.

Hefyd, bydd pob tîm yn cynnwys o leiaf ddau arolygydd cymheiriaid. Fel arfer, bydd un arolygydd cymheiriaid yn uwch arweinydd o awdurdod lleol neu wasanaeth rhanbarthol y tu allan i'w hawdurdod lleol neu'u rhanbarth eu hunain. Bydd arolygydd cymheiriaid arall yn arweinydd maes gwasanaeth mewn awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg, fel arfer. Bydd y tîm arolygu yn cynnwys o leiaf un arolygydd o Archwilio Cymru bob amser. Gan ddibynnu ar natur y materion a nodwyd yn y dystiolaeth cyn-arolygiad, gallai'r tîm ofyn am arolygydd o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Os yw'n briodol, bydd yr arolygydd cofnodol yn cysylltu ag AGC cyn yr arolygiad i lunio barn ynghylch p'un a fyddai'n fuddiol i gynrychiolydd o AGC ymuno â'r tîm arolygu. Yn ymarferol, anaml y bydd AGC yn cymryd rhan mewn arolygiadau GALlL wyneb-yn-wyneb. Os nad yw'n cymryd rhan yn yr arolygiad, byddwn yn gwahodd AGC i ddarparu briff cyn-arolygiad ar waith diweddar a pherthnasol y mae wedi'i gyflawni yn yr awdurdod lleol.

### Ystyried agwedd benodol ar wasanaethau addysg

Caiff tîm pwrpasol ei sefydlu i fynd i'r afael â'r cwestiwn arolygu lleol ar gyfer y gwasanaethau addysg rydym yn canolbwyntio arnynt. Fel arfer, byddwn yn cynnwys o leiaf un arolygydd cymheiriaid perthnasol fel rhan o'r tîm. Gallwn wahodd Archwilio Cymru ac AGC i gyfrannu at yr arolygiad, naill ai wyneb-yn-wyneb neu drwy friff cyn-arolygiad.

### Ar gyfer arolygiadau o ddarparwyr eraill gwasanaethau addysg

Caiff tîm pwrpasol ei sefydlu yn amodol ar gwmpas y darparwr gwasanaethau addysg a nifer yr ysgolion y mae'n darparu gwasanaeth iddynt. Fel arfer, byddwn yn cynnwys o leiaf un arolygydd cymheiriaid perthnasol fel rhan o'r tîm. Lle y bo'n berthnasol, byddwn yn gwahodd Archwilio Cymru ac AGC i gyfrannu at yr arolygiad, naill ai wyneb-yn-wyneb neu drwy friff cyn-arolygiad.

## Amserlen arolygu

Caiff y rhaglen arolygu GALlL ei chynnal am chwe blynedd o fis Medi 2024 hyd fis Gorffennaf 2031. Byddwn yn arolygu pob awdurdod lleol o leiaf unwaith yn ystod y cylch hwn. Byddwn yn arolygu darparwyr eraill gwasanaethau addysg ar gais Llywodraeth Cymru neu fel mae PAEF yn ei gweld yn angenrheidiol.

Caiff y rhaglen ei thrafod â chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill er mwyn helpu osgoi dyblygu, lleihau tarfu a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio gydag Archwilio Cymru, AGC neu AGIC.

## Cysylltu â'r awdurdod lleol cyn yr arolygiad

Byddwn yn hysbysu awdurdod lleol am arolygiad o wasanaeth addysg llywodraeth leol wyth wythnos ymlaen llaw. Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol y byddwn yn cynnal arolygiad ar wahân o'i waith ieuenctid, a fydd yn cael ei gynnal dair wythnos ar ôl yr hysbysiad, fel arfer. Bydd trefnu'r arolygiad o

waith ieuenctid cyn yr arolygiad GALIL yn caniatáu i ganfyddiadau'r arolygiad hwnnw lywio agweddau ar yr arolygiad GALIL.

Pan fydd yr awdurdod lleol wedi cael ei hysbysu'n ffurfiol, bydd un o'n cydlynwyr arolygu (CydAr) yn cysylltu â'r awdurdod lleol dros y ffôn i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y CydAr:

- yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad, gan gynnwys y broses ar gyfer trafod cwestiynau am arolygiad lleol, y gweithgareddau rhagarweiniol a'r gwaith arolygu ar y safle
- yn rhannu'r cwestiynau arolygu lleol drafft
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig trwy'r YAR
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am frîff cyffredinol ar iechyd a diogelwch i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn cadarnhau a yw'r awdurdod lleol yn dymuno cael enwebai ai peidio ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn cadarnhau bod gan y swyddog enwebedig hynafedd digonol a'i fod/bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r set o holiaduron cyn-arolygiad ar-lein
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael
- yn trafod gofyniad yr amserlen am weithgareddau rhagarweiniol a phrif weithgareddau'r arolygiad
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig fel ystafell sylfaen i'r arolygwyr, lle parcio a mynediad i'r rhyngrwyd
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn gwneud y trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol y caiff y trefniadau allweddol eu cadarnhau'n ysgrifenedig

Bydd y CydAr yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan yr awdurdod lleol drwy'r YAR cyn gynted â phosibl ar ôl yr hysbysiad ffurfiol o'r arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol am yr awdurdod lleol
- dogfennau mewnol sy'n cynnwys barn yr awdurdod lleol ar agweddau ar ddeilliannau addysg, ansawdd y gwasanaethau addysg neu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ran gwasanaethau addysg, fel adroddiadau i'r Cyngor, y Cabinet, craffu, y tîm rheoli corfforaethol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus neu Lywodraeth Cymru. Dylai'r ffocws fod ar ddogfennau a luniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, ond gallai dogfennau hŷn fod yn berthnasol a dilys neu ddarparu cyd-destun defnyddiol o hyd
- cynlluniau cyfredol (gan gynnwys y cynllun corfforaethol a'r cynllun partneriaeth lefel uchaf, yn ogystal â chynlluniau sy'n ymwneud â gwasanaethau addysg)

Byddwn yn gofyn i'r awdurdod lleol roi gwybod i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill am yr arolygiad, gan gynnwys ei ysgolion, UCDau a darparwyr eraill gwasanaethau addysg.

## Arolygon

Ar gyfer arolygiadau awdurdodau lleol, byddwn yn cynnal arolwg am bythefnos cyn wythnos yr arolygiad craidd. Bydd yr arolwg hwn yn cael cyhoeddusrwydd eang trwy ein sianeli cyfathrebu, a byddwn yn gofyn i’r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i’r arolwg hefyd. Mae gennym ni ddiddordeb ym marn y canlynol:

- rhieni a gofalwyr
- aelodau etholedig a llywodraethwyr
- staff sy’n gweithio yn yr awdurdod lleol a’i ysgolion ac UCDau
- staff sy’n gweithio i wasanaeth addysg partneriaeth gwella ysgolion
- sefydliadau lleol neu genedlaethol sydd â diddordeb mewn gwasanaethau addysg

Bydd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau cyffredin ar gyfer pob arolygiad GALIL.

Bydd yr arolwg yn teilwra’r cwestiynau’n awtomatig, gan ddibynnu ar yr unigolyn sy’n llenwi’r arolwg, er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol.

Bydd ein harolygwyr yn ystyried yr adborth o’r arolwg ochr yn ochr â thystiolaeth arall yn ystod prif wythnos yr arolygiad. Bydd y CydAr yn esbonio sut cynhelir yr arolwg yn ystod ei sgwrs gychwynnol â’r awdurdod lleol.

Byddwn yn rhannu canfyddiadau meintiol o arolygon gyda’r awdurdod lleol, ond mae’r holl sylwadau yn gyfrinachol ac ni fyddant ar gael i’r awdurdod lleol. Gallai arolygwyr grynhoi sylwadau gyda’r awdurdod lleol lle mae hyn yn fuddiol i archwilio thema ymhellach yn ystod yr arolygiad.

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad am sut rydym ni’n defnyddio arolygon, gweler ein harweiniad atodol.

Ar gyfer arolygiadau eraill o wasanaethau addysg llywodraeth leol, efallai y byddwn yn defnyddio arolwg, hefyd. Yn yr achosion hyn, byddwn ond yn gofyn cwestiynau sy’n berthnasol i’r gwasanaeth(au) sy’n cael ei/eu (h)arolygu.

## Paratoi’r cwestiynau arolygu lleol

Wrth baratoi ar gyfer yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn ystyried barn yr awdurdod lleol amdano’i hun, ynghyd â gwybodaeth sydd gennym yn barod, gan gynnwys gwybodaeth a rennir gan Archwilio Cymru ac AGC, hefyd.

Byddwn yn ystyried y gwasanaethau addysg a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ac yn drafftio set o gwestiynau arolygu lleol sy’n cwmpasu agweddau penodol a pherthnasol ar faes arolygu 1.

Ar gyfer awdurdod lleol, fel arfer bydd o leiaf bedwar cwestiwn a dim mwy nag chwech. Bydd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy’n ymwneud â blaenoriaethau strategol yr awdurdod lleol neu’n ymwneud â gwybodaeth sydd gennym am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol. Ar gyfer darparwyr eraill gwasanaethau addysg, bydd y cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio’n naturiol ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt a chânt eu teilwra i’w cyd-destun a’u blaenoriaethau penodol.

Bydd ein cydlynydd arolygu (CydAr) yn rhannu'r cwestiynau arolygu lleol drafft â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg fel rhan o'r broses hysbysu.

Bydd yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cael cyfle i drafod y cwestiynau drafft gyda'r arolygydd cofnodol o fewn 10 diwrnod i'r hysbysiad. Bydd y drafodaeth hon fel arfer yn digwydd dros y ffôn. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd yr arolygydd cofnodol yn esbonio'r rhesymeg ar gyfer y set o gwestiynau drafft ac yn trafod y gweithgarwch arolygu posibl sydd ei angen i fynd i'r afael â phob cwestiwn. Bydd yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cael ei wahodd i rannu ei farnau ei hun ynglŷn â phriodoldeb a defnyddioldeb y cwestiynau a'r gweithgarwch arolygu posibl. Bydd yr arolygydd cofnodol yn ystyried y barnau hyn wrth gwblhau'r cwestiynau arolygu lleol. Ein harolygwyr ni fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch geiriad a ffocws y cwestiynau arolygu lleol. Ein nod yw cadarnhau'r set derfynol o gwestiynau arolygu lleol chwe wythnos fan bellaf cyn wythnos yr arolygiad.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Ar ôl cwblhau'r cwestiynau arolygu lleol, a fydd fel arfer o fewn 10 diwrnod i hysbysu, bydd yr arolygydd cofnodol yn drafftio cynllun ar gyfer y gweithgareddau rhagarweiniol ac wythnos yr arolygiad craidd ac yn cydweithio â'r enwebai i ddatblygu amserlen o weithgareddau.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau'r tîm arolygu. Bydd hyn yn cynnwys pennu arolygydd arweiniol ar gyfer pob cwestiwn arolygu lleol.

## Gweithgareddau arolygu rhagarweiniol

Fel arfer, wythnos neu ddwy cyn wythnos yr arolygiad, byddwn yn cynnal gweithgareddau rhagarweiniol i gefnogi'r arolygiad. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u llunio i gasglu barnau rhanddeiliaid allweddol yng ngwaith yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Cynhelir y gweithgarwch gan yr arolygydd cofnodol ac arolygydd arall o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod â'r awdurdod lleol pwy fydd arolygwyr yn cyfarfod â nhw yn ystod y gweithgareddau rhagarweiniol, er mai ni sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy i gyfweld â nhw.

Gallai'r gweithgareddau rhagarweiniol ddigwydd ar-lein neu wyneb-yn-wyneb a bydd yr arolygydd cofnodol yn trafod y dull mwyaf priodol ar gyfer pob cyfarfod gyda'r enwebai.

Ar ddiwedd y gweithgareddau hyn, bydd yr arolygwyr cofnodol yn briffio'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ynghylch unrhyw faterion sylweddol sy'n deillio o'r gweithgareddau rhagarweiniol.

Caiff canfyddiadau'r gweithgareddau rhagarweiniol eu rhannu â'r tîm arolygu a'u hystyried yn ystod wythnos yr arolygiad.

### Awdurdodau lleol

Yn ystod y gweithgareddau rhagarweiniol, bydd arolygwyr fel arfer yn cyfarfod â sampl o:

- benaethiaid
- cadeiryddion cyrff llywodraethol
- arweinwyr neu reolwyr o ddarparwyr addysg eraill lle bo'n berthnasol (er enghraifft lleoliadau nas cynhelir neu sefydliadau addysg bellach)
- grwpiau cynrychioliadol plant a phobl ifanc
- cynrychiolwyr o sectorau statudol eraill, y sector gwirfoddol, y sector preifat a grwpiau eraill lle mae cysylltiad cryf â chwestiynau'r arolygiad lleol

Bydd arolygwyr yn ceisio cyfarfod â rhieni a gofalwyr hefyd, a all rhoi tystiolaeth ddefnyddiol yn ymwneud ag unrhyw rai o'r cwestiynau arolygu lleol. Er enghraifft, os oes gan yr awdurdod lleol fforwm rhieni a gofalwyr i blant anabl a bod cwestiwn arolygu lleol yn cwmpasu darpariaeth addysg ar gyfer y plant hyn, yna byddai arolygwyr yn ceisio cyfarfod â'r fforwm i archwilio eu profiadau a'u safbwyntiau.

### Darparwyr eraill gwasanaethau addysg

Caiff ein gweithgareddau rhagarweiniol ar gyfer darparwyr eraill gwasanaethau addysg eu teilwra'n briodol, ond byddant yn dilyn ymagwedd debyg i'r rhai ar gyfer awdurdodau lleol, yn gyffredinol, lle bo hynny'n berthnasol.

## Arsylwadau o wasanaethau addysg

Gallai arolygwyr arsylwi agweddau penodol ar wasanaethau addysg fel rhan o arolygiad GALIL pan fydd tystiolaeth uniongyrchol yn ategu ein gwaith ar gwestiwn arolygu lleol.

Yn yr achosion hyn, bydd Estyn fel arfer yn trefnu i arsylwi'r gwasanaethau perthnasol naill ai fel rhan o'r ymweliad rhagarweiniol neu ar ryw adeg gyfleus arall cyn y brif wythnos arolygu, fel arfer. Gallai'r arolygydd cofnodol gymryd cyfrifoldeb am y trefniadau hyn neu eu dirprwyo i aelod o'r tîm sy'n gweithio ar gwestiwn arolygu lleol penodol. Gallwn ddefnyddio arolygwyr ychwanegol neu arolygwyr cymheiriaid i gefnogi arsylwadau pan fydd ganddynt brofiad yn y maes gwasanaeth perthnasol hefyd.

## Yn ystod wythnos yr arolygiad

### Cyflwyniad gan uwch arweinwyr

Ar ddechrau'r arolygiad, dylai'r tîm arolygu gyfarfod ag uwch arweinwyr o'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Er enghraifft, mewn awdurdod lleol, byddai hyn fel arfer yn cynnwys y prif weithredwr a'r prif swyddog addysg, aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth addysg ac aelodau etholedig allweddol, yn cynnwys yr arweinydd, aelod arweiniol y cabinet a chadeirydd y pwyllgor craffu. Dylai'r enwebai fod yn rhan o'r cyfarfod hwn hefyd. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno â'r enwebai ar y rhai a fydd yn bresennol.

Rhoddir y cyfle i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg roi cyflwyniad i'r tîm arolygu cyfan, na ddylai bara mwy na 30 munud. Dylid defnyddio'r

cyflwyniad i bwysleisio'r cyd-destun lleol a'r blaenoriaethau strategol, ac amlygu'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysg.

**Cyflwyniadau ar y cwestiynau arolygu lleol**

Ar ôl y prif gyflwyniad, bydd staff allweddol yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cael cyfle i gyfarfod â'r arolygydd arweiniol ar gyfer pob cwestiwn arolygu lleol. Pan fo'n briodol, gallai'r awdurdod lleol  ddymuno cynnwys swyddogion gwella ysgolion neu bartneriaid eraill yn y cyfarfodydd hyn. Bydd y staff dan sylw yn cael eu gwahodd i rannu eu safbwynt ar gwestiwn arolygu lleol, yn darparu cyd-destun buddiol ar gyfer yr arolygydd arweiniol, yn amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella ac yn cyfeirio'r arolygydd arweiniol at y dystiolaeth fwyaf defnyddiol. Gan amlaf, ni ddylai mwy na thri swyddog gymryd rhan yn y cyfarfod cychwynnol hwn ac ni ddylai bara mwy na 30 munud. Efallai na fydd angen cynnal cyflwyniadau ar wahân ar y cwestiynau arolygu lleol os oes un neu ddau gwestiwn yn unig y gall uwch arweinwyr roi sylw iddynt yn y cyflwyniad.

Er y gallai arolygwyr ofyn cwestiynau ar ôl y prif gyflwyniad neu'r cyflwyniad ar y cwestiynau arolygu lleol, byddant fel arfer yn cadw cwestiynau ar gyfer cyfweliad ar wahân a'r rhai dan sylw.

**Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu**

Mae arolygiadau'n dechrau drwy ystyried hunanwerthusiad yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ei hun a'i gynlluniau ar gyfer gwella, a bydd ystod eang o dystiolaeth ategol yn cyd-fynd â'r rhain. Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu'r arfarniadau a gynigir i lunio'u barnau eu hunain.

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel bod modd iddo ymdrin â'r gofynion adrodd ac ateb y cwestiynau arolygu lleol.

Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i lunio barnau a mynd i'r afael â'r cwestiynau arolygu lleol. Bydd angen i'r tîm sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y dystiolaeth allweddol y gellir ei defnyddio i gadarnhau ei farnau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- dogfennau hunanwerthuso (gellir cofnodi barn yr awdurdod mewn amrywiaeth o ddogfennau, rhai papur ac ar-lein, ac ni ddylai fod yn adroddiad a luniwyd yn benodol ar gyfer y tîm arolygu)
- data ar ddeilliannau addysg, gan gynnwys data lleol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg
- briffiau gan ein harolygwyr cyswllt
- briffiau gan Archwilio Cymru, AGC ac arolygiaethau eraill, lle y bo'n berthnasol
- tystiolaeth ddogfennol, fel adroddiadau i uwch reolwyr, y cyngor, y cabinet a'r pwyllgor craffu
- barnau plant, pobl ifanc a rhieni (gan gynnwys canfyddiadau unrhyw un o'n harolygon a holiaduron perthnasol)
- barnau rhanddeiliaid eraill, fel ysgolion a sefydliadau partner statudol a gwirfoddol
- cyfweliadau gydag uwch arweinwyr, staff ac aelodau etholedig
- cyfweliadau gydag uwch arweinwyr o'r consortiwm rhanbarthol perthnasol a phartneriaethau perthnasol eraill

- cyfweliadau gyda swyddogion a rhanddeiliaid eraill a all helpu arolygwyr i fynd i'r afael â'r cwestiynau arolygu lleol

Bydd angen i'r amserlen ar gyfer cyfweliadau arolygu fod yn hyblyg i fodloni anghenion y tîm arolygu.

**Cofnodi tystiolaeth arolygu**

Bydd arolygwyr yn llenwi'u ffurflenni yn electronig fel rhan o'n system electronig ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

**Cyfarfodydd tîm**

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw cytuno ar farnau cywir, dibynadwy, dilys a chorfforaethol am ansawdd gwasanaethau addysg a'u heffaith, ac ansawdd yr arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi dilysrwydd prosesau hunanwerthuso'r darparwr a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Tuag at ddiwedd yr arolygiad, bydd y tîm yn cymedroli a chytuno ar yr holl farnau yn ffurfiol gyda'i gilydd. Ni fydd arolygwyr yn llunio barnau crynodol ar gyfer pob maes arolygu. Bydd y tîm yn llunio barn grynodol ynglŷn â ph'un a yw'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol ai peidio.

**Deialog broffesiynol**

Ar ddiwedd pob diwrnod, dylai'r arolygydd cofnodol, cyhyd ag y bo'n ymarferol, gynnig deialog broffesiynol â'r prif weithredwr neu uwch swyddog arall i drafod cynnydd yr arolygiad. Dylai'r cyfarfod hwn gynnwys y prif swyddog addysg hefyd os nad ef/hi yw'r enwebai. Mae hwn yn gyfle i rannu canfyddiadau dros dro sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cryfderau dros dro a meysydd i'w gwella, yn ogystal â'r angen am ragor o dystiolaeth. Mae hefyd yn cynnig cyfle pwysig i drafod unrhyw broblemau posibl â'r modd y mae'r arolygiad yn cael ei gynnal. Gallai unrhyw ganfyddiadau sy'n cael eu trafod yn y cyfarfodydd hyn gael eu diwygio, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar dystiolaeth bellach neu ar ôl cynnal cyfweliadau pellach, neu o ganlyniad i gymedroli oddi mewn i'r tîm.

**Peri pryder sylweddol**

Yn ystod pob arolygiad, bydd y tîm arolygu'n ystyried a yw'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol ac yn mynnu gweithgarwch dilynol.

Dyma'r rhesymau posibl dros nodi bod awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol:

- cyfran uchel o ddysgwyr yn tangyflawni dros gyfnod neu ddirywiad sylweddol mewn cyflawniad dros gyfnod
- cyfran uchel o ysgolion, UCDau neu ddarparwyr addysg eraill yn cael eu gosod

mewn categorïau statudol
- pryderon difrifol am ddiogelu
- methu mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- gwendidau pwysig mewn gwasanaethau addysg
- gwendidau pwysig mewn uwch arweinyddiaeth
- unrhyw bryder arall sy'n achosi risg sylweddol i les neu gyflawniad plant a phobl ifanc

Rhaid i'r tîm arolygu adrodd o'u profiad eu hunain a gallu cadarnhau eu barnau ar sail tystiolaeth gadarn. Os yw'r dystiolaeth yn cyfeirio at y casgliad bod yr awdurdod neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol, rhaid i arolygwyr lunio'r farn honno.

Dylai ein harolygwyr gofio bob amser bod y prif bwyslais mewn arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol ar y deilliannau i ddysgwyr.

Wrth farnu'r graddau y mae gan uwch arweinwyr y gallu i sicrhau gwelliannau, bydd angen i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r arweinwyr hyn yn gwybod beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn eu sefydliad, ac yn eu deall. Hefyd, dylai arolygwyr bennu a yw uwch arweinwyr yn dangos y gallu i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella drwy'r ymdeimlad o bwrpas a chyfeiriad a ddarparant, a thrwy benderfyniadau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â phryderon. Dylai trafodaethau ag uwch arweinwyr ddarparu tystiolaeth o'r modd y maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac a ydynt yn rhoi sylw i'r pethau iawn. Hefyd, lle y bo'n berthnasol, dylai arolygwyr ystyried pa mor wybodus yw aelodau etholedig ynglŷn â meysydd i'w gwella a pha mor dda y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau effeithiol a phriodol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r pwyllgor craffu yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Mewn unrhyw amgylchiadau, mae'n hanfodol bod arolygwyr yn gwerthuso gwaith yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn y cyd-destun y mae'n gweithredu ynddo ar y pryd. Ni ddylent gael eu dylanwadu'n ormodol gan gynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn ddiweddar nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto, neu benodiadau staff diweddar, fel prif weithredwr newydd neu uwch swyddog addysg. Y rheswm am hyn, yn y ddau achos, yw na fydd effaith neu ddylanwad gwelliannau wedi digwydd eto, a rhaid i arolygwyr farnu deilliannau yn hytrach na bwriadau tybiannol neu fwriadau da.

Dylai trafodaethau tîm ystyried unrhyw ffactorau lliniarol i sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd barnau cyn penderfynu bod awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol.

Os bernir bod yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol, dylai'r arolygydd cofnodol gymryd y camau dilynol:

- hysbysu'r cydlynydd arolygu priodol
- hysbysu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr Strategol o'r farn (a fydd, yn eu tro, yn hysbysu PAEF)

Lle y bo'n berthnasol, bydd yr arolygydd arweiniol ar gyfer pob cwestiwn arolygu lleol yn rhannu canfyddiadau'r tîm ar gyfer y cwestiwn â'r aelodau staff arweiniol a

roddodd y cyflwyniad ar ddechrau'r wythnos arolygu. Bydd yr arolygydd arweiniol yn cynnig cyfle i drafod cywirdeb ffeithiol ac eglurder y canfyddiadau a dealltwriaeth ohonynt.

Bydd adborth ar gwestiynau arolygu lleol yn digwydd cyn yr adborth ar y canfyddiadau llawn.

**Adborth ffurfiol ar y canfyddiadau llawn**

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhannu'r canfyddiadau dros dro gydag uwch arweinwyr a rheolwyr.

Cyn yr adborth hwn, bydd y tîm arolygu yn rhoi adborth i staff allweddol sy'n arwain ar y cwestiynau arolygu lleol ar eu meysydd cyfrifoldeb. Lle y bo'n briodol, efallai yr hoffai'r awdurdod lleol gynnwys swyddogion gwella ysgolion neu bartneriaid eraill yn y cyfarfodydd hyn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r swyddogion perthnasol ystyried deilliannau dros dro'r arolygiad yn eu meysydd cyfrifoldeb allweddol a gofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad.

Caiff hyn ei ddilyn gan adborth i'r awdurdod lleol gan y tîm cyfan. Dylai'r rhai sy'n bresennol yn sesiwn adborth hon gynnwys y prif weithredwr, y prif swyddog addysg ac uwch arweinwyr addysg eraill, arweinydd y cyngor, arweinydd y cabinet a chadeirydd y pwyllgor craffu. Efallai yr hoffai'r awdurdod lleol wahodd uwch arweinwyr eraill i'r sesiwn adborth, fel uwch arweinydd o'r gwasanaeth gwella addysg, yn ôl ei ddisgresiwn. Dylai'r enwebai gytuno ar y rhai a fydd yn bresennol gyda'r arolygydd cofnodol, ymlaen llaw.

Ar ben hynny, efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Gymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fod yn bresennol yn y cyfarfodydd adborth â statws arsylwyr. Os felly, dylai Llywodraeth Cymru a CLlLC gysylltu â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn uniongyrchol i drefnu i swyddog fod yn bresennol.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio y gallai materion gael eu codi a'u trafod, y gellir cywiro materion ffeithiol, y gellir gwirio dealltwriaeth a chadarnhau barnau, ond nad yw'r barnau eu hunain yn agored i drafodaeth.

Mae'r holl farnau yr adroddir arnynt yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu cymedroli a'u dilysu gan PAEF. Mae'r barnau'n gyfrinachol i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg a phartneriaid allweddol ac ni ddylid eu cyfleu'n allanol, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan. Dylid trin unrhyw nodiadau neu gofnodion a wneir mewn cyfarfodydd adborth, boed yn electronig neu'n ysgrifenedig, fel rhai cyfrinachol a rhaid peidio â'u cyfleu'n allanol.

**Adroddiadau a chrynodebau i awdurdodau sy'n peri pryder sylweddol**

Rhaid i'r arolygydd cofnodol ddweud yn glir yn sail y dystiolaeth bod yr awdurdod lleol neu agwedd ar ei wasanaethau addysg, neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg, yn ei farn ef/yn ei barn hi, yn peri pryder sylweddol. Rhaid i'r ACof ddweud yn glir hefyd beth oedd y prif ddiffygion a arweiniodd at y farn honno.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg, yn ogystal â'i bartneriaid, dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd yn ehangach. Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried ein harweiniad ysgrifennu.

Cyhoeddir yr holl adroddiadau'n ddwyieithog. Bydd yr adroddiad ar y ffurf ganlynol:

**Ynglŷn â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg**

**Crynodeb**

**Argymhellion**

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Prif ganfyddiadau**

- Gwasanaethau addysg a'u heffaith
- Arwain a gwella

Caiff adroddiadau arolygu eu cyhoeddi tua tri deg diwrnod gwaith o ddiwrnod olaf yr arolygiad.

Byddwn yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Mae gan yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol. Nid yw'r gwiriad o gywirdeb ffeithiol yn gyfle i herio barnau.

Bum niwrnod gwaith cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol, bydd yr arolygiaeth yn anfon copi electronig dan embargo at y cyfarwyddwr perthnasol yn Llywodraeth Cymru i'w drafod gyda Gweinidogion.

Byddwn yn anfon copïau electronig o'r adroddiad terfynol at uwch gynrychiolwyr perthnasol yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Er enghraifft, caiff adroddiad awdurdod lleol ei anfon at brif weithredwr yr awdurdod lleol, y prif swyddog addysg, arweinydd y cyngor a'r aelod etholedig â phrif gyfrifoldeb dros addysg, a chadeirydd y pwyllgor craffu addysg.

Hefyd, byddwn yn anfon copi o'r adroddiad i Archwilio Cymru. Pan fydd arolygwyr o un neu fwy o arolygiaethau eraill wedi ymuno â'r tîm ar gyfer arolygiad o awdurdod lleol, byddwn yn anfon copi o'r adroddiad at yr arolygiaeth(au) dan sylw.

Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan. Gall Archwilio Cymru ac arolygiaethau eraill drefnu bod yr adroddiad ar gael ar eu gwefannau eu hunain ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

**Ar gyfer awdurdod lleol, agwedd ar ei wasanaethau addysg neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg sy'n peri pryder sylweddol**

Cyn pen pum niwrnod o ddiwedd yr arolygiad, bydd yr ACof:

- yn llenwi adran berthnasol y ffurflen adrodd arolygiad (FfAA)
- yn rhoi'r FfAA orffenedig yn adran dogfennau'r arolygiad yn yr YAR
- yn rhoi gwybod i'r CydAr dynodedig drwy'r e-bost ac anfon copi i flwch post y CydAr yn ic@estyn.llyw.cymru

Bydd PAEF, neu AEF yn gweithredu ar ran PAEF, yn craffu ar waith y tîm arolygu i wirio'r farn. Dylai'r ACof sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod proses yr arolygiad ar gael i graffu arni. Mae'r pŵer gan PAEF i alw am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen.

Os nad yw PAEF yn cytuno â barn yr arolygydd cofnodol, caiff y rhesymau eu hesbonio a rhoddir y cyfle iddo/iddi drafod penderfyniad PAEF a newid yr adroddiad a'r crynodeb drwy ddileu'r farn fod yr awdurdod yn peri pryder.

Ar ôl i'r broses briodol o herio a chymedroli'n fewnol gael ei chwblhau i sicrhau'r barnau, bydd PAEF, lle y'i cadarnheir, yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru bod yr awdurdod lleol, agwedd ar ei wasanaethau addysg neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol. Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn aros nes i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ymateb i gam gwirio cywirdeb ffeithiol y broses.

**Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad**

Ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr eraill gwasanaethau addysg y nodwyd eu bod yn peri pryder sylweddol, byddwn yn cymryd rhan yn rhagweithiol yn y broses ôl-arolygiad i gynllunio ar gyfer gwella. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 'gweithgarwch dilynol' yr arweiniad hwn. Ym mhob achos arall, mae'r broses ar ôl cyhoeddi'r adroddiad wedi'i hamlinellu isod.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai hyn ddigwydd cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Nid oes angen cynllun gweithredu ôl-arolygiad ar wahân arnom.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, rydym fel arfer yn disgwyl bod pwyllgor craffu perthnasol yn craffu ar yr adroddiad ac yn herio uwch arweinwyr, gan gynnwys swyddogion ac aelodau etholedig, am eu cynlluniau ar gyfer gwella. Bydd o leiaf un arolygydd sy'n cymryd rhan yn yr arolygiad yn mynychu'r cyfarfod hwn fel arsyllwr, ond bydd yn cyfrannu at y sesiwn lle mae'n helpu egluro unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r arolygiad a'r adroddiad.

Bydd un o'n harolygwyr cyswllt yn trafod y cynlluniau diweddaraf gydag uwch arweinwyr fel rhan o'u gwaith parhaus. Bydd yr arolygydd cyswllt hefyd yn gwneud yn siŵr fod trefniadau addas ar waith i fonitro gweithredu cynlluniau a gwerthuso'u heffaith.

## Hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Rydym yn awyddus i hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol. Os yw'r tîm arolygu wedi nodi cryfderau sylweddol mewn deilliannau, gwasanaethau addysg neu arweinyddiaeth a rheolaeth, yna byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg i rannu ei waith trwy gynnwys astudiaeth achos i'w chyhoeddi fel atodiad yn yr adroddiad.

## Llinell amser yn crynhoi cerrig milltir allweddol yn ystod y broses arolygu

Mae'r amserlen isod wedi'i seilio ar arolygiad safonol o awdurdod lleol. Byddwn yn teilwra'r amserlen hon i weddu i'r cyd-destun ar gyfer arolygiadau o ddarparwyr eraill gwasanaethau addysg ac arolygiadau â ffocws o awdurdodau lleol.

**Cyn-arolygiad**

- Hysbysiad o arolygiad GALIL a gwaith ieuenctid (8 wythnos cyn arolygiad)
- Cyhoeddi'r arolygon wrth hysbysu (ar agor am 2 wythnos)
- Cadarnhau'r cwestiynau arolygu lleol (6 wythnos cyn arolygiad)
- Arolygiad o waith ieuenctid - 3 wythnos ar ôl yr hysbysiad
- Gweithgareddau rhagarweiniol (1 neu 2 wythnos cyn arolygiad)

**Wythnos yr arolygiad**

- Cyflwyniadau cychwynnol a'r cyfarfod tîm rhagarweiniol (dydd Llun)
- Bydd arolygwyr yn cyfweld ag uwch arweinwyr a rheolwyr yn yr awdurdod lleol a phartneriaid allweddol, yn craffu ar ddogfennau perthnasol ac yn trafod barnau fel tîm (dydd Mawrth i ddydd Iau)
- Adborth llafar (dydd Gwener)

**Ôl-arolygiad**

- Cyhoeddi'r adroddiad (30 diwrnod gwaith ar ôl yr arolygiad)
- Arolygwyr yn mynychu cyfarfod y pwyllgor craffu i drafod yr adroddiad (cyn pen 3 mis o'r adroddiad)
- Os bydd yr awdurdod lleol neu'r darparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol, byddwn yn trefnu cynhadledd wella i gynorthwyo'r awdurdod i fynd i'r afael â'r pryderon (cyn pen 3 mis o'r adroddiad)

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cynorthwyo a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid
- cynnig hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol er mwyn galluogi'r enwebai i chwarae rôl weithredol
- cynnal deialog reolaidd gydag uwch arweinwyr yn ystod yr arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio ag arweiniad arolygu
- rhoi adborth clir ar lafar am brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir sydd wedi'u cyflwyno'n dda

### Yn ystod wythnos yr arolygiad

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn y lle cyntaf.

Dylai'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg godi unrhyw

bryderon ynglŷn â'r ffordd y cynhelir arolygiad gyda'r arolygydd cofnodol cyn gynted â phosibl yn ystod yr arolygiad.

Fel arfer, bydd cyfarwyddwr strategol, cyfarwyddwr cynorthwyol neu swyddog arweiniol GALIL yn ymuno â'r tîm arolygu ar gyfer rhan neu bob un o'i gyfarfodydd cymedroli i sicrhau ansawdd y broses. Byddant hefyd yn ceisio cyfarfod yn unol ag uwch arweinwyr, yr enwebai ac aelodau o'r tîm arolygu i drafod y broses arolygu. Gallent roi cyngor ac arweiniad i gynorthwyo'r tîm i gytuno ar farnau.

**Ar ôl wythnos yr arolygiad**

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael yn yr YAR. Dylai rhan gyntaf yr HOA gael ei llenwi cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr arolygiad ar y safle a'i chyflwyno'n electronig drwy'r YAR. Dylai ail ran yr HOA gael ei llenwi ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy'r YAR.

Bydd aelod o'n huwch dîm yn sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu cyn eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae ein trefniadau safonol ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau a'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion ar gael ar ein gwefan.

## Rhan 2: Trefniadau gweithgarwch dilynol

Bydd un categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol: 'peri pryder sylweddol'. Mae'r arweiniad isod yn amlinellu sut byddwn yn cydweithio ag awdurdod lleol neu unrhyw ddarparwr arall gwasanaethau addysg dan unrhyw un o'r amgylchiadau hyn.

### Ar gyfer awdurdodau lleol neu wasanaethau addysg sy'n peri pryder sylweddol

### Cynhadledd wella ôl-arolygiad

Pan nodir bod awdurdod lleol yn peri pryder sylweddol, byddwn yn cadeirio cynhadledd wella tua tri mis ar ôl yr arolygiad gydag uwch arweinwyr (swyddogion a, lle y bo'n berthnasol, aelodau etholedig) o'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg a rhanddeiliaid allweddol eraill. Byddwn yn anfon hysbysiad ffurfiol bedair wythnos cyn y gynhadledd, ond byddwn yn anelu at sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn i ni gyhoeddi'r hysbysiad hwn. Fel arfer, byddwn yn cynnwys arolygydd cofnodol yr arolygiad ac arolygydd cyswllt yr awdurdod lleol (ACALl) yn y gynhadledd.

Diben y gynhadledd fyddai gwirio bod yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg wedi deall yn llawn y rhesymau dros y barnau arolygu, ac i wirio bod cynlluniau priodol yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â diffygion.

Ar ôl y gynhadledd, byddwn yn anfon llythyr at brif weithredwr yr awdurdod lleol neu uwch arweinydd cyfatebol darparwr arall gwasanaethau addysg. Bydd y llythyr hwn yn cadarnhau graddfa'r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod y gynhadledd fod barnau'r arolygiad wedi'u derbyn a bod cynlluniau addas yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r diffygion. Yn y llythyr, gall arolygwyr gynnwys argymhellion i'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg i gynorthwyo gwelliant pellach yn ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r pryder.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn gwahodd Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gymryd rhan yn y gynhadledd. Efallai y byddwn yn gwahodd AGC hefyd, lle bo'n briodol. Ar gyfer awdurdod lleol sydd ag agwedd ar wasanaethau addysg sy'n peri pryder sylweddol, byddwn yn gwahodd y sefydliadau eraill hyn i'r gynhadledd yn ôl yr angen, yn amodol ar y gwasanaeth rydym yn canolbwyntio arno.

### Ymweliadau monitro

Ar ôl y gynhadledd wella ôl-arolygiad, byddwn yn datblygu amserlen o ymweliadau monitro â'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg. Caiff safbwyntiau'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg eu hystyried wrth ddatblygu'r amserlen.

Caiff yr ymweliadau monitro hyn eu defnyddio i wirio pa mor dda y mae'r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn symud ymlaen â'i gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad a pha effaith y mae eu camau gweithredu'n ei

chael. Efallai na fydd ymweliad monitro yn rhoi sylw i bob argymhelliad.

Pan fydd modd, fel arfer, byddwn yn cynnwys yr ACALI ym mhob ymweliad monitro a byddwn fel arfer yn cynnwys yr arolygydd cofnodol o’r arolygiad yn yr ymweliad monitro cyntaf, o leiaf.

Fel arfer, bydd ymweliad monitro wedi’i drefnu dros dridiau, gyda deuddydd o weithgarwch yn dechrau amser cinio ar y diwrnod cyntaf ac yn gorffen amser cinio ar y trydydd diwrnod, ond, yn y pen draw, byddwn yn cydweithio â’r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg i gytuno ar amserlen addas o weithgareddau a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd o ran yr argymhellion sy’n cael eu hystyried yn ystod yr ymweliad.

Efallai y byddwn yn defnyddio arolwg i gasglu barnau rhanddeiliaid allweddol cyn ymweliad monitro. Gallem gynnal gweithgareddau rhagarweiniol â rhanddeiliaid allweddol hefyd, naill ai wyneb-yn-wyneb neu ar-lein, fel cyfarfod â grŵp o benaethiaid.

Byddwn yn hysbysu’r awdurdod yn ffurfiol bedair wythnos cyn ymweliad monitro, fel arfer, ond byddwn yn ceisio sicrhau bod y dyddiad yn addas cyn i ni gyhoeddi’r hysbysiad hwn. Gallwn wahodd Archwilio Cymru neu AGC i gyfrannu at ymweliad monitro, os yw hynny’n briodol.

Bydd YAR yn cael ei threfnu ar gyfer pob ymweliad monitro, a fydd yn galluogi’r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg i rannu ychydig o ddogfennau allweddol a gwybodaeth ategol sy’n berthnasol.

Ar ôl pob ymweliad monitro, byddwn yn cyhoeddi adroddiad byr cyn pen pedair wythnos. Byddwn yn sicrhau bod yr awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn cael cyfle i wirio ei gywirdeb ffeithiol cyn ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad hwn yn cadarnhau graddau’r sicrwydd a gafodd arolygwyr yn ystod yr ymweliad fod camau’r awdurdod lleol ers yr arolygiad yn cael yr effaith a ddymunir ar y meysydd i’w gwella. Yn yr adroddiad, gall arolygwyr gynnwys argymhellion i’r awdurdod i gynorthwyo gwelliant pellach yn ei gynlluniau i fynd i’r afael â’r pryder.

**Tynnu o gategori gweithgarwch dilynol**

Ar ôl unrhyw ymweliad monitro, gallai arolygwyr argymell i PAEF nad yw’r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol mwyach ac y gellir ei dynnu o’r categori gweithgarwch dilynol. I fod yn y sefyllfa honno, byddai angen i arolygwyr fod yn sicr y gwnaed digon o gynnydd o ran mynd i’r afael â phob argymhelliad o’r arolygiad. Rydym yn disgwyl y byddai fel arfer yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i awdurdod lleol allu dangos digon o gynnydd.

Os yw PAEF yn cytuno, yna bydd yr adroddiad ar gyfer yr ymweliad monitro yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd ar gyfer pob argymhelliad a barn gyffredinol y gwnaed cynnydd digonol i dynnu’r gweithgarwch dilynol gan nad yw’r awdurdod lleol neu ddarparwr arall gwasanaethau addysg yn peri pryder sylweddol mwyach.